SgiliauAdeiladu

Cynllun Iaith Gymraeg

Paratowyd yn unol â
Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

1. DATGANIAD AGORIADOL

SgiliauAdeiladu yw'r Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer y Sector Adeiladu, mae's gweithredu thrwy'r DU gyda ei phrif swyddfa cenedlaethol yng Nghymru yn Penybont, gyda is swyddfa ddistaff yn Rhyl. Lleolir prif swyddfa'r DU yn y Coleg Adeiladu Cenedlaethol yn Birham Newton, Norfolk. Cyn ennill statws fel Cyngor Sgiliau Sector yn 2004 roedd SgiliauAdeiladu yn gweithredu fel y CITB (Bwrdd Hyfforddi y Diwydiant Adeiladu) ac am gyfnod byr fel CITB-SgiliauAdeiladu. Mae gan Sgiliau Adeiladu yng Nghymru enw a logo dwyieithog, SgiliauAdeiladu yng Nghymru. Cyn cyflwyno y Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig hwn roedd y CITB wedi cyflwyno ei chynllun Iaith Gymraeg yn wirfoddol a chafodd hon ei chymeradwyo gan Bwrdd y Iaith Gymraeg o dan adran 14(1) o'r ddeddf ar Fedi 18ed 2001.

Mae'r Cynllun diwygiedig hwn wedi derbyn sêl bendith Bwrdd yr Iaith dan Adran 14 (1) o'r Ddeddf ar [dyddiad y gymeraddwyaeth].

Mae SgiliauAdeiladu wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut y bydd SgiliauAdeiladu yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Mae SgiliauAdeiladu yn cydnabod y gall unigolion fynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith ac mai mater o arfer da yn hytrach na goddefgarwch yw eu galluogi i ddefnyddio'u dewis iaith ac y gall gwadu'r hawl i ddefnyddio eu dewis iaith eu rhoi mewn sefyllfa anfanteisiol. Bydd SgiliauAdeiladu yn cynnig yr hawl i'r cyhoedd ddewis pa iaith i'w defnyddio wrth ymdrin ag ef ac yn cymhwyso'r egwyddor hon i ddisgwyliadau ar y cyrff y mae'n delio â nhw.

2. CYFLWYNIAD I SGILIAUADEILADU

2.1. Cyd-destun Prydeinig

Mae'r Cynghorau Sgiliau Sector (CSS) yn gyrff annibynnol sydd i'w canfod ar draws Prydain; maent wedi eu datblygu gan grwpiau dylanwadol o gyflogwyr mewn sectorau busnes neu ddiwydiant sydd o bwys strategol ac economaidd. Wedi'u harwain gan gyflogwyr, mae'r CSS yn cydweithio gydag undebau llafur, cyrff proffesiynol a budd-ddeiliaid eraill o fewn y sector. Caiff y CSS eu trwyddedu gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Hyfforddiant, mewn ymgynghoriad â Gweinidogion yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, er mwyn diwallu anghenion sgiliau a chynhyrchiant eu sectorau ar draws y DU.

Rhydd y CSS gyfrifoldeb i gyflogwyr i gynnig arweiniad strategol er mwyn diwallu anghenion sgiliau a busnes yn eu sector. Yn gyfnewid, maent yn derbyn cryn fuddsoddiad cyhoeddus a mwy o ddeialog gydag adrannau'r llywodraeth ar draws y DU. Mi fydd hyn yn galluogi cyflogwyr sector i ddylanwadu'n fwy ar

bolisïau sydd yn effeithio ar sgiliau a chynhyrchiant a chynyddu dylanwad gyda phartneriaid addysg a hyfforddiant.

Bydd pob CSS yn cytuno ar flaenoriaethau a thargedau sector gyda'u cyflogwyr a phartneriaid wrth geisio gwireddu'r amcanion isod:

- Lleihau gagendor sgiliau a phrinderau
- Gwella cynhyrchiant, busnes a pherfformiad gwasanaeth cyhoeddus
- Cynyddu cyfleoedd i hybu sgiliau a chynhyrchiant pawb o fewn gweithlu'r sector gan gynnwys cynllun ar gyfleoedd cyfartal
- Gwella'r ddarpariaeth addysg, gan gynnwys prentisiaethau, safonau galwedigaethol cenedlaethol ac addysg uwch

2.2. Cyd-destun Cymru

Mae SgiliauAdeiladu yn helpu i ddarparu'r gweithlu sgilgar wedi eu hyfforddi'n llawn y mae diwydiant adeiladu'r Deyrnas Unedig ei angen os yw i ffynnu yn awr ac yn y dyfodol.
Mae SgiliauAdeiladu yn gweithio gyda CITB Gogledd Iwerddon a'r Cyngor Diwydiant Adeiladu (CIC) fel y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer Adeiladu. Gelwir y sefydliad yn SgiliauAdeiladu.
Fel corff statudol, cawn ein hariannu yn bennaf gan y diwydiant adeiladu ei hunan, drwy lefi. Cynhyrchir cyllid ychwanegol drwy gyrff cyhoeddus, er enghraifft y Cyngor Dysgu a Sgiliau a'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd, yn ogystal â gan ein mentrau masnachol ein hunain.
Strwythurwyd y sefydliad yn y ffordd sy'n rhoi'r gefnogaeth orau i flaenoriaethau a nodau'r diwydiant. Mae saith cyfarwyddiaeth - Strategaeth Sgiliau, Asiantaeth Rheoli, Maes, Gwasanaethau Busnes, Coleg Adeiladu Cenedlaethol, Cyfathrebu a Marchnata a Gwasanaethau Corfforaethol.
Gweithredwn yng Nghymru, Lloegr a'r Alban ac mae'r brif swyddfa yn Bircham Newton yn Norfolk.

Ein cennad ar gyfer y diwydiant yw:

Diwydiant adeiladu hollol broffesiynol a sgilgar yn y DU yn gweithio'n ddiogel ac yn cyflenwi gwerth.

I gyflawni hyn mae angen i ni, SgiliauAdeiladu, gyflenwi'r (CSS) Cytundeb Sgiliau Sectora ddatblygwyd ac a gytunwyd gyda budd-ddeiliaid ar draws llywodraeth, diwydiant ac addysg. Mae'n cwmpasu ein pedair her sgiliau allweddol, pob un ohonynt â nifer o flaenoriaethau.

Gwella perfformiad busnes

Cynyddu'r nifer o gwmnïau sy'n buddsoddi mewn hyfforddiant.

Datblygu sgiliau rheoli ac arwain.

Cefnogi dysgu gydol oes mewn adeiladu.

Datblygu sgiliau ar gyfer cynaliadwyedd

Cymhwyso'r gweithlu presennol

Cynyddu ac ehangu cynllun y diwydiant ar gyfer Cymhwyso'r Gweithlu.

Datblygu strwythurau hyfforddiant hyblyg ar gyfer swyddi galwedigaethol.

Cynorthwyo integreiddio effeithlon gweithwyr mudol.

Recriwtio newydd-ddyfodiaid gyda chymwysterau

Gwella dealltwriaeth o gyfleoedd gyrfa mewn adeiladu.

Cynyddu'r nifer sy'n cwblhau prentisiaethau ac ehangu cyfleoedd ar gyfer ymarfer ar-safle.

Sicrhau fod y diwydiant adeiladu yn adlewyrchu poblogaeth y DU yn well

Cynyddu nifer y ceisiadau ar gyfer cyrsiau gradd yn gysylltiedig ag adeiladu

Gwella'r seilwaith i gefnogi'r blaenoriaethau hyn

Gwella'r wybodaeth ar sgiliau ar gyfer y dyfodol.

Datblygu llwybrau cymwysterau a dilyniant ymhellach i ateb anghenion y diwydiant.

Amcanion Strategol

Mae pob un o GyfarwyddiaethauSgiliauAdeiladu wedi datblygu strategaethau i drin y blaenoriaethau y medrant gyfrannu atynt. Mae'r rhain yn trosi yn gyfres o weithgareddau sy'n rhaid eu cyflenwi, yn cynnwys:

- Sefydlu 'Rhwydwaith Sgiliau Adeiladu' fel yr arbenigydd cydnabyddedig ar allu, cynhyrchiant a sgiliau adeiladu.
- Tyfu prentisiaethau drwy lwybrau a arweinir gan raglenni a gwella cyfraddau cwblhau prentisiaethau.
- Ehangu'r galw am gymwysterau galwedigaethol drwy Cymhwyso'r Gweithlu a sicrhau cyllid ar gyfer Hyfforddiant ac Asesiad Ar-Safle (OSAT).
- Sefydlu cymhwyster SgiliauAdeiladu ar gyfer recriwtio graddedigion ac amrywiaeth ac ar gyfer sgiliau rheoli ac arwain adeiladu.
- Ymrwymo busnesau bach mewn hyfforddiant drwy sefydlu gwasanaeth trefnu.
- Lleihau cymhorthdal lefi i weithgareddau SgiliauAdeiladu, drwy gynyddu'r grantiau i ddiwydiant tra'n cadw'r cyfraddau lefi cyfredol.
- Trawsnewid cyllid NCC drwy ail-drefnu hyfforddiant ieuenctid a hybu hyfforddiant masnachol i oedolion.
- Cynyddu'r cyfleoedd i hyrwyddo brand SgiliauAdeiladu.

Cyd-destun Cymru

Caiff gweithrediadau SgiliauAdeiladu eu harwain gan Gyfarwyddwr Cymru a gefnogir gan dîm rheoli sydd oll yn bennaf yn seiliedig yn swyddfa Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr, gydag un rheolwr yng Ngogledd Cymru. Caiff cyfanswm o 51 aelod o staff eu cyflogi gan SgiliauAdeiladu yng Nghymru gyda phedwar o'r aelodau staff hyn yn rhugl mewn Cymraeg llafar ac ysgrifenedig. Mae dau aelod arall o'r staff gweinyddol yn rhugl neu'n lled-rugl mewn Cymraeg llafar ac ysgrifenedig. Cefnogir darpariaeth Gymraeg drwy ddefnyddio cyfieithydd cymeradwy a thrwy benodiad person dwyieithog ar secondiad gan Gyrfa Cymru yn ddiweddar.

Perthynas gyda chyrff canolog a rhanbarthol eraill SgiliauAdeiladu.

Mae perthynas weithio a strategol agos ac sy'n gwella gyda Chynghorau Sgiliau Sector cysylltiedig drwy'r Rhwydwaith Sgiliau ar gyfer Busnes a grwpiau strategol cysylltiedig yn cynnwys yr Arsyllfa Sgiliau a Grŵp Ymgynghorol Cymru SgiliauAdeiladu.

Datblygiadau'r Dyfodol

Mae swyddfa ychwanegol wedi ei sefydlu a'i hagor yn y Rhyl ers Ionawr 2008. Nid oes yr un aelod o staff yn gweithio yn barhaus o'r swyddfa yma. Mae datblygiadau'r dyfodol yn cynnwys integreiddio a threfniadau gwaith agosach gyda Chynghorau Sgiliau Sector eraill yr Amgylchedd Adeiledig ac yn benodol bartneriaid SgiliauAdeiladu arall megis CIC a CITB Gogledd Iwerddon.

3. CYNLLUNIO A CHYFLWYNO GWASANAETH

3.1. Polisïau a Mentrau Newydd

3.1.1. Wrth lunio polisïau a mentrau newydd, bydd SgiliauAdeiladu yn:

- asesu effaith ieithyddol unrhyw bolisïau a mentrau newydd wrth eu llunio a sicrhau eu bod yn gyson â'r Cynllun Iaith
- sicrhau y bydd mesurau'r Cynllun yn cael eu gweithredu wrth roi polisïau a mentrau newydd ar waith
- gwarantu nad yw polisïau neu fentrau newydd yn tanseilio Cynllun Iaith SgiliauAdeiladu neu Gynllun Iaith cyflenwyr eraill
- hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg pa bryd bynnag y bydd hynny'n bosib ac yn symud y sefydliad yn nes at weithredu'r egwyddor o gydraddoldeb yn llawn
- ymgynghori â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ymlaen llaw ynglŷn â bwriadau a fydd yn effeithio ar y Cynllun, neu'n effeithio ar Gynlluniau cyrff cyhoeddus eraill. Ni chaiff y Cynllun ei newid heb gytundeb y Bwrdd.
- sicrhau nid yn unig bod staff ac ymgynghorwyr sy'n llunio polisïau (yng Nghymru a thu hwnt) yn ymwybodol o'r Cynllun Iaith ac o gyfrifoldebau SgiliauAdeiladu o dan Ddeddf Iaith 1993, ond bod holl staff perthnasol ac angenrheidiol SgiliauAdeiladu (yng Nghymru a thu hwnt) hefyd yn ymwybodol o'r Cynllun.Bydd SgiliauAdeiladu yn codi ymwybyddiaeth o'r Cynllun a sensitifrwydd iaith ymysg ei staff yng Nghymru drwy:-

  i) Trefnu cyfarfodydd gyda holl Gyfarwyddwyr/Rheolwyr SgiliauAdeiladu (yng Nghymru a thu hwnt) er mwyn esbonio sut bydd y Cynllun yn effeithio ar eu gwaith.

ii) Cyhoeddi i'r holl staff yn y cyfarfodydd Tîm, Rheoli a Chyfarwyddo (yng Nghymru a thu hwnt) fod y Cynllun i'w weithredu

iii) Disgwylir i'r holl (*Benaethiaid Adran, Rheolwyr Busnes Rhanbarthol a.y.y.b.*) drwytho'u staff ar oblygiadau'r Cynllun i'w hunain ac i SgiliauAdeiladu

iv) Cynnal arolwg a gwerthusiad blynyddol o'r Cynllun gyda'r personél perthnasol e.e. Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Marchnata a Chyfathrebu, Rheolwyr Adrannol yng Nghymru, er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r hyn sydd ei angen a monitro effeithiolrwydd gweithrediad y Cynllun

v) Cynnwys cyflwyniad i'r Cynllun Iaith fel rhan o hyfforddiant anwytho ar gyfer pob aelod o staff newydd a gaiff ei apwyntio i SgiliauAdeiladu yng Nghymru neu a fydd yn delio yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â'r cyhoedd yng Nghymru

vi) Llunio cylchlythyr copi caled ac electronig o gynnwys talfyredig y Cynllun a'i ddosbarthu i'r holl staff oddi mewn a thu allan i Gymru

vii) Cyhoeddi'r Cynllun ar wefan a mewnrwyd SgiliauAdeiladu.

3.2. Safon y gwasanaethau

3.2.1. Bydd gwasanaethau a gyflwynir trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg lawn cystal eu safon, eu hansawdd a'u prydlondeb â'i gilydd. Wrth fynd ati i asesu a mesur safonau ac effeithiolrwydd y gwasanaethau Cymraeg, bydd SgiliauAdeiladu yn defnyddio'r un "dangosyddion perfformiad" ag a ddefnyddir ar gyfer ei wasanaethau Saesneg.

3.2.2. Caiff y safonau yma a'u gweithrediad eu monitro fel yr amlinellir yn adran 3.1.1.

3.2.3. Bydd gweithrediad y Cynllun ac ymrwymiad SgiliauAdeiladu at gydraddoldeb ieithyddol yn cael ei gyhoeddi yng nghynllun busnes blynyddol y sefydliad, deunyddiau hyrwyddo, cylchlythyrau a gwefan.

3.2.4. Bydd SgiliauAdeiladu yn sicrhau cysondeb safon y gwasanaethau yn Gymraeg a ddarperir gan y corff o wahanol leoliadau.

3.3. Darparu gwasanaethau dwyieithog

3.3.1. Cred SgiliauAdeiladu mai teg a rhesymol yw i'r cyhoedd ddisgwyl derbyn gwasanaethau ganddo yn Gymraeg neu Saesneg yn ôl dewis yr unigolyn. Gan fod SgiliauAdeiladu yn medru cynnig dewis teg a rhesymol i'r cyhoedd ar hyn o bryd, mae'r corff yn ymrwymo i gynnal a gweithredu trefniadau a fydd yn ei alluogi i barhau i ddarparu pob gwasanaeth i'r cyhoedd yr un mor effeithiol, hwylus a chyflawn yn y Gymraeg fel yn Saesneg.

3.3.2. I'r perwyl hwn, bydd SgiliauAdeiladu yn archwilio trefniadaeth pob un o'i wasanaethau i'r cyhoedd er mwyn penderfynu sut orau y gellir symud ymlaen tuag at weithredu'r egwyddor o gydraddoldeb.

Rhydd flaenoriaeth yn y lle cyntaf i'r angen i sicrhau bod y swyddogion hynny sy'n cysylltu fwyaf â'r cyhoedd, boed yn wyneb yn wyneb neu dros y ffôn, neu drwy ohebiaeth neu gyfryngau eraill, yn medru gwneud hynny yn ddwyieithog.

4 DARPARIAETHAU

4.1. Rôl y CSS

Wrth weithredu'n strategol a thargedol er mwyn diwallu anghenion sgiliau, gweithlu, datblygiad a busnes y sector, mae rôl y Cynghorau Sgiliau Sector wrth sicrhau cyfleoedd hyfforddi priodol yn anhraethol bwysig. Mae'r rôl hon yn cynnwys cydlynu rhwng cyflogwyr o fewn y sector a systemau hyfforddi ac addysg ar draws y DU. Gellir crynhoi rôl y Cynghorau Sgiliau Sector fel a ganlyn:

Ymchwil, Gwybodaeth a Chyfarwyddyd

- dynodi a gwella cyfleoedd addysg a hyfforddiant er mwyn diwallu anghenion pob un sector
- ymgymryd ag ymchwil i mewn i fylchau sgiliau sector gan ledaenu'r canfyddiadau

Datblygiad Sectorol a Phartneriaethau

- darparu cyfleoedd safonol i weithwyr presennol ac unigolion eraill sy'n chwilio am waith o fewn pob un sector
- cytuno ar dargedau ar gyfer cyfraniadau o du'r asiantaethau cyhoeddus allweddol er mwyn cwrdd â blaenoriaethau'r sector
- dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch sgiliau sydd i'w cymryd gan lywodraethau'r DU
- hyrwyddo buddsoddiad mewn sgiliau a thalent a fydd yn cynorthwyo i ddiwallu anghenion y sector ac yn annog cystadleugarwch

Fframweithiau Hyfforddi

- diffinio a datblygu safonau galwedigaethol allweddol a llwybrau dysgu
- cwrdd â'r patrymau cyfnewidiol o ofynion sgiliau a chynyddu cynhyrchiant
- darparu cyngor a chyfarwyddyd i gyflogwyr a gweithwyr ar sgiliau penodol ac ymarferion hyfforddi
- annog cyfranogiad cydweithredol i wybodaeth farchnad lafur, economaidd a sgiliau ym mhob cenedl a rhanbarth

4.2. Y Cynghorau Sgiliau Sector yng Nghymru

Wrth ddatblygu sgiliau, gweithlu ac anghenion busnes y sector oddi mewn i Gymru, bydd SgiliauAdeiladu yn ymrwymo i ymchwilio ac ymateb i anghenion dwyieithrwydd. Dengys canlyniadau Cyfrifiad 2001 fod 20% o'r boblogaeth yn medru'r Gymraeg. Mae'r cynnydd hwn i'w

briodoli'n bennaf i lwyddiant addysg cyfrwng Cymraeg. Mae SgiliauAdeiladu yn cydnabod ei rôl wrth sicrhau fod addysg ddwyieithog a chyfleoedd hyfforddi yn parhau ar gael er budd cyflogwyr ac unigolion sy'n chwilio am waith o fewn sector SgiliauAdeiladu.

Mae cynllun gweithredu cenedlaethol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Cymru ddwyieithog, *Iaith Pawb,* yn datgan ei pholisi o brif-ffrydio'r iaith Gymraeg i mewn i bob agwedd o Gymru. Pwysleisia *Iaith Pawb* bwysigrwydd rôl y Cynghorau Sgiliau Sector wrth ddiwallu anghenion sgiliau iaith Gymraeg yn eu sectorau penodol.

Mae canlyniadau ymchwil *Sgiliau Dyfodol Cymru* yn dynodi'n eglur fod sgiliau dwyieithog yn cael eu hystyried gan gyflogwyr yn gaffaeliad gwerthfawr. Dengys canfyddiadau hefyd fod yna ddiffyg sylweddol o bobl a chanddynt sgiliau dwyieithog mewn sectorau penodol.

4.3. Bydd SgiliauAdeiladu yn ymchwilio ac yn ymateb i anghenion sgiliau iaith Gymraeg o fewn y sector adeiladu. Bydd SgiliauAdeiladu yn cynghori ac yn arwain darparwyr dysgu i adnabod ac ymchwilio i anghenion hyfforddi Cymru ddwyieithog.

4.4. Ymchwil

MESURAU

- Ymchwilio i argaeledd sgiliau dwyieithog ac anghenion y sector yn y dyfodol
- Ymchwilio i mewn i'r ddarpariaeth bresennol a'r buddsoddiad mewn addysg hyfforddiant/galwedigaethol er mwyn cynllunio ar gyfer darpariaethau'r dyfodol
- Ymchwilio i mewn i anghenion sgiliau arbenigol a phenodol o fewn y sector

GWEITHREDU

- Bydd arolygon dwyieithog yn cael eu cynnal odi fewn i 12 mis o dyddiad derbyn y cynllyn hwn yn cynnwys cwestiynau penodol ar yr angen a'r galw am sgiliau cyfrwng Cymraeg
- Bydd canfyddiadau'r ymchwil yn cael eu dosbarthu gan amlygu'r sgîl-effeithiau ar gyfer addysg ac ymarferion hyfforddi.
- Bydd canfyddiadau'r ymchwil yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog.

4.5. Gwybodaeth a Chyfarwyddyd

MESURAU

- Darparu gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd er mwyn cefnogi addysg gydol oes y recriwtiaid a'r gweithwyr

- Trefnu cyngor ymarferol a chyfarwyddyd ar gyfer cwmnïau unigol ynghylch sgiliau ac ymarferion hyfforddi sydd eu hangen er mwyn ymateb i anghenion cyfnewidiol
- Sicrhau fod gwybodaeth gywir ar gael ynghylch hyfforddiant, cyngor a chyfarwyddyd ar faterion sgiliau yn y sector

GWEITHREDU

- Datblygu gwasanaethau gyrfaoedd a chyfarwyddyd ar gyfer unigolion proffesiynol sydd yn gweithio oddi mewn i'r diwydiant neu'r sawl sydd am weithio yn y diwydiant. Bydd y gwasanaeth yma ar gael yn y ddwy iaith o fewn i 12 mis i ddyddiad derbyn y cynllun hwn.
- Bydd gwasanaeth cyngor a chyfarwyddyd ar gyfer cwmnïau unigol yn cael ei ddatblygu. Bydd y gwasanaeth yma ar gael yn y ddwy iaith o fewn i 12 mis i ddyddiad derbyn y cynllun hwn.
- Bydd y cyngor yn cynnwys cyfeiriad penodol at bwysigrwydd sgiliau dwyieithog gan ystyried ffactorau megis gofynion Cynlluniau Iaith Gymraeg y sector cyhoeddus a recriwtio.
- Bydd cyfarwyddyd ynghylch argaeledd cyfleoedd hyfforddi Cymraeg/dwyieithog bob amser ar gael i gyflogwyr a gweithwyr o fewn i 12 mis i ddyddiad derbyn y cynllun hwn.

4.6. Datblygiad Sectorol a Phartneriaeth

MESURAU

- Cynnig cyfleoedd safonol i weithwyr presennol a'r sawl sydd yn chwilio am waith oddi mewn i'r sector
- Cytuno ar dargedau ar gyfer cyfraniadau o du'r asiantaethau cyhoeddus allweddol er mwyn cwrdd â blaenoriaethau'r sector
- Dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch sgiliau sydd i'w cymryd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
- Hyrwyddo buddsoddiad mewn sgiliau a thalent a fydd yn cynorthwyo i ddiwallu anghenion y sector ac yn annog cystadleugarwch

GWEITHREDU

- Erbyn 2009, bydd SgiliauAdeiladu yn goruchwylio datblygiad Cynllun Datblygu Gweithlu Sector ar gyfer Cymru er mwyn darparu agenda weithredu ar gyfer y diwydiant, Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i asiantaethau cyhoeddus. Bydd Cynllun Datblygu Sector Adeiladu yn asesu anghenion Sgiliau Iaith Gymraeg y sector Adeiladu ac yn cael ei gyfieithu i'r Gymraeg. Caiff targedau eu gosod er mwyn datblygu darpariaeth ddwyieithog a seilir ar resymeg a chanfyddiadau.
- Bydd SgiliauAdeiladu yn cydweithio'n agos gyda adrannau perthnasol Llywodraeth Cynulliad Cymru fel DCELLS wrth gytuno ar flaenoriaethau anghenion sgiliau dwyieithog y sector. Erbyn 2009, caiff y partneriaethau eu ffurfioli drwy gyfrwng cyfarfodydd chwarterol

- Bydd y blaenoriaethau sgiliau dwyieithog yn cael eu rhannu ymhlith cyrff priodol gan gynnwys Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- Bydd SgiliauAdeiladu yn gwarantu fod y cynlluniau y mae'n eu cefnogi drwy'r Cronfeydd Buddsoddi hefyd yn cydymffurfio â'i Gynllun Iaith Gymraeg.
- Bydd SgiliauAdeiladu yn hyrwyddo datblygiad cyfleoedd hyfforddi dwyieithog tra hefyd yn cydnabod enghreifftiau o ymarfer da.

4.7. Fframweithiau Hyfforddi

MESURAU

- Diffinio a datblygu safonau galwedigaethol allweddol a llwybrau dysgu
- Cwrdd â'r patrymau cyfnewidiol o ofynion sgiliau a chynyddu cynhyrchiant
- Darparu cyngor a chyfarwyddyd i gyflogwyr a gweithwyr ar sgiliau penodol ac ymarferion hyfforddi
- Annog cyfranogiad cydweithredol i wybodaeth farchnad lafur, economaidd a sgiliau ym mhob cenedl a rhanbarth

GWEITHREDU

- Bydd Safonau a Chymwysterau, a fydd yn cynnwys fersiynau Cymraeg, yn y maes hwn yn cael eu hyrwyddo.
- Bydd SgiliauAdeiladu yn hyrwyddo manteision sgiliau dwyieithog o fewn y sector Adeiladu ac yn darparu cyfarwyddyd i gyflogwyr a gweithwyr ar sgiliau dwyieithog ac ymarferion hyfforddi.
- Drwy gydweithio'n agos adrannau priodol o'r Cynulliad bydd SgiliauAdeiladu yn blaenoriaethu safonau a chymwysterau diwydiant sydd i'w cyfieithu i'r Gymraeg yn ôl y canfyddiadau ymchwil diweddaraf.
- Drwy ymgynghori'n gyson gyda adrannau priodol o'r Cynulliad bydd SgiliauAdeiladu yn sicrhau fod Cyrff Dyfarnu priodol yn gwarantu fod cyfleoedd asesu priodol ar gael ar gyfer y safonau a chymwysterau Cymraeg/dwyieithog sydd wedi eu blaenoriaethu. Bydd matrics yn cael ei ddatblygu yn olrhain safonau a chymwysterau sydd ar gael/fydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Wrth adnabod, blaenoriaethu a hyrwyddo cyfleoedd hyfforddiant ac asesu dwyieithog, bydd SgiliauAdeiladu yn annog a chefnogi rhwydweithiau cydweithredol ar lefelau cenedlaethol a rhanbarthol.

5. DELIO Â'R CYHOEDD SY'N SIARAD CYMRAEG

5.1. Gohebu Ysgrifenedig

5.1.1. Mae SgiliauAdeiladu yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Bydd papur pennawd swyddogol SgiliauAdeiladu sydd i'w ddefnyddio yng Nghymru yn cynnwys datganiad yn y ddwy iaith a fydd yn esbonio fod gohebiaeth i'w chroesawu yn Gymraeg neu'r Saesneg.

5.1.2. Bydd y targedau amser a osodir sef 5 diwrnod gwaith wrth ateb gohebiaeth Gymraeg yr un â'r targedau amser a osodir wrth ateb gohebiaeth Saesneg. Ni fydd gohebu drwy gyfrwng y Gymraeg ynddo'i hun yn arwain at oedi.

5.1.3. Bydd llythyrau a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael ateb yn y Gymraeg wedi'i lofnodi.

5.1.4. Bydd pob gohebiaeth, wedi sgwrs ffôn, wyneb yn wyneb neu gyfarfod lle y canfyddir mai'r Gymraeg yw dewis iaith yr unigolyn, er efallai nad yw'r drafodaeth wedi'i chynnal yn y Gymraeg eto, yn Gymraeg

5.1.5. Bydd SgiliauAdeiladu yn gohebu â phob aelod o'r cyhoedd yn ei ddewis iaith os yn wybyddus. Bydd SgiliauAdeiladu Cymru yn paratoi bas data o'r rhai sy'n dymuno derbyn gohebiaeth Gymraeg.

5.1.6 Bydd pob cylchlythyr a llythyr safonol sydd i'w ddosbarthu gan SgiliauAdeiladu yn ddwyieithog.

5.1.7 Caiff trefniadau i gyfieithu gohebiaeth eu gwneud yn ôl yr angen, a hynny o fewn yr amser penodedig ac yn yr iaith briodol. Bydd staff yn derbyn cyfarwyddyd ynghylch sut i gyflawni hyn.

5.1.8 Bydd SgiliauAdeiladu yn danfon yr holl ddeunydd sydd angen ei gyfieithu at gyfieithydd allanol cymeradwy a fydd wedyn yn cydymffurfio â'r targedau amser priodol.

5.1.9 Bydd SgiliauAdeiladu yn gosod *Cysill* a *Cysgair* ar ei system gyfrifiaduron er mwyn cynorthwyo staff gyda gohebiaeth ysgrifenedig.

5.2. Gohebu Electronig

5.2.1. Caiff yr egwyddorion a amlinellir yn adran 5.1. eu gweithredu wrth gyfathrebu'n electronig.

5.2.2. Pan fo mathau newydd o gyfathrebu a dulliau storio yn cael eu gosod ar gyfrifiaduron SgiliauAdeiladu, bydd gallu meddalwedd i ddelio â mwy nag un iaith yn ffactor i'w ystyried wrth brynu meddalwedd newydd, yn enwedig os yw'r fath systemau yn mynd i ddarparu allbwn/gwasanaeth dwyieithog.

5.3. Galwadau Ffôn

5.3.1 Bydd SgiliauAdeiladu yng Nghymru yn cyfarch galwadau ffôn yn ddwyieithog ac yn medru delio gydag ymholiadau ffôn yn Gymraeg neu'r Saesneg. Bydd y sawl o fewn SgiliauAdeiladu nad yw'n medru'r Gymraeg yn derbyn cyfarwyddyd ar sut i ddelio gyda galwadau ffôn Cymraeg (e.e. darparu rhestr fewnol o'r staff Cymraeg sydd yn medru delio gyda galwadau ffôn Cymraeg). Ond os yw aelod o'r cyhoedd am siarad Cymraeg, ac os nad oes staff Cymraeg priodol ar gael, caiff yr unigolyn gynnig a yw'n dymuno cyflwyno'r ymholiad ar ffurf ysgrifenedig yn Gymraeg a chael ateb iddo yn

Gymraeg; esbonio'r ymholiad yn Saesneg ar lafar ond cael ateb ysgrifenedig yn Gymraeg; neu barhau â'r sgwrs yn Saesneg.

5.3.2 Bydd hi'n ddyletswydd ar bawb sy'n ateb y ffôn ar ran SgiliauAdeiladu i ofalu na wna i'r rhai sy'n ffonio deimlo eu bod yn niwsans neu'n peri anghyfleustra am eu bod yn dymuno cyfathrebu yn Gymraeg.

5.3.3 Bydd yr holl gyfarwyddyd a negeseuon ateb yn cael eu recordio'n ddwyieithog ar yr holl rifau a hysbysebir yng Nghymru gyda'r hyn sydd wedi ei recordio yn dynodi y gall negeseuon gael eu gadael yn Gymraeg neu Saesneg.

5.3.4 Bydd y targed amser o 1 diwrnod gwaith a osodir wrth ateb ymholiadau ffôn Cymraeg yr un â'r targedau amser a osodir wrth ateb ymholiadau ffôn Saesneg.

5.4. Cyfarfodydd Cyhoeddus

5.4.1. Gan y bydd SgiliauAdeiladu yn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru, croesewir cyfraniadau yn Gymraeg neu'r Saesneg. Caiff hyn ei ddatgan yn glir ar yr holl hysbysiadau a fydd yn hysbysebu'r cyfarfod a chaiff y sawl sy'n mynychu eu hatgoffa o'r dewis iaith ar ddechrau pob cyfarfod.

5.4.2. Yr unig eithriad i'r drefn uchod fydd cyfarfodydd y gwyddys ymlaen llaw na fydd angen cyfieithydd ynddynt, un ai:

- am fod pawb fydd yn bresennol yn deall Cymraeg
- am fod pawb fydd yn bresennol yn ddi-Gymraeg
- am y gwyddys mai Saesneg yw dewis iaith pawb fydd yn bresennol

5.4.3. Bydd yr holl lenyddiaeth (rhaglen, gwŷs, hysbyseb) a fydd yn hysbysebu'r cyfarfod yn ddwyieithog.

5.4.4. Wrth hysbysebu'r cyfarfod, bydd yr holl lenyddiaeth yn cynnwys nodyn yn datgan fod SgiliauAdeiladu yn croesawu'r rhai fydd yn bresennol ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg. Bydd gofyn iddynt hefyd roi gwybod i SgiliauAdeiladu ymlaen llaw ba iaith y dymunant ei defnyddio er mwyn trefnu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd os oes angen.

5.4.5. Os nad yw'n hysbys ymlaen llaw bwy ddaw i'r cyfarfod ac a fydd neb am siarad Cymraeg ynddo ai peidio, bydd trefnydd y cyfarfod yn penderfynu yn ôl ei ddoethineb a ddylid trefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ai peidio. Bydd y penderfyniad hwnnw yn seiliedig ar natur y cyfarfod, ei leoliad daearyddol, pwy fydd y gynulleidfa debygol a'r profiad o gyfarfodydd blaenorol cyffelyb. Os oes gwir ansicrwydd o hyd, yna penderfynir o blaid trefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

5.4.6. Bydd unrhyw ddeunydd ysgrifenedig a gaiff ei ddefnyddio yng nghyfarfodydd cyhoeddus SgiliauAdeiladu yn ddwyieithog. Mae hyn hefyd yn cynnwys cyflwyniadau *Pwerbwynt*.

5.4.7. Bydd SgiliauAdeiladu yn ymateb i unrhyw geisiadau am wybodaeth ynghylch cyfarfod yn newis iaith yr unigolyn.

5.4.8. Bydd SgiliauAdeiladu yn sicrhau presenoldeb staff Cymraeg i groesawu a hwyluso defnydd o'r iaith ymhlith y sawl sy'n mynychu ac yn cyfrannu yn y cyfarfodydd. Bydd y swyddogion yma'n gwisgo

bathodynnau “Iaith Gwaith” er mwyn dynodi eu bod yn rhugl yn Gymraeg neu wrthi’n dysgu Cymraeg.

5.4.9. Bydd cyfarwyddyd ar sut i hwyluso cyfraniadau drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei ddarparu i gadeiryddion cyfarfodydd cyhoeddus nad ydynt yn medru’r Gymraeg.

5.5. Cyfarfodydd heb fod yn gyhoeddus

5.5.1. Mae croeso i’r sawl sydd am gynnal cyfarfod preifat neu wyneb yn wyneb gyda SgiliauAdeiladu wneud hynny yn Gymraeg neu Saesneg.

5.5.2. Caiff dewis iaith ei gynnig wrth drefnu cyfarfodydd, ac os mai’r Gymraeg yw’r cyfrwng a ddewisir, caiff trefniadau eu gwneud gyda’r staff Cymraeg priodol.

5.5.3. Drwy gynnig dewis iaith, mae Sgiliau Adeiladu yn cydnabod:

- Y gall unigolion fynegi’u hunain a’u hanghenion yn fwy effeithiol yn eu dewis iaith
- Bod galluogi unigolion i ddefnyddio’u dewis iaith yn fater o ymarfer da ac nid yn gonsesiwn
- Y gall gwrthod hawl i unigolion ddefnyddio’u dewis iaith eu rhoi dan anfantais

5.5.4. Mae’r mesurau yma’n briodol i bob math o gyfarfodydd sydd heb fod yn gyhoeddus.

6. WYNEB CYHOEDDUS SGILIAUADEILADU

6.1. Hunaniaeth Gorfforaethol

6.1.1. Bydd SgiliauAdeiladu Cymru yn mabwysiadu ac yn cyflwyno hunaniaeth gorfforaethol yng Nghymru sy’n gwbl ddwyieithog.

6.1.2. Mae hyn yn cynnwys enw, cyfeiriad, logo, hunaniaeth weledol a slogan gorfforaethol SgiliauAdeiladu ac unrhyw wybodaeth safonol arall sydd i’w defnyddio ar:

- Papur pennawd, papur ffacs, slipiau cyfarch, llofnodion e-bost
- Yr holl ddeunydd marchnata/hysbysebu (h.y. cylchlythyrau, posteri, taflenni) sydd wedi’u hanelu at y cyhoedd yng Nghymru
- Cardiau busnes, gwahoddiadau, bathodynnau adnabod

6.2. Gwefan

6.2.1. Ar hyn o bryd, nid oes elfen ddwyieithog i wefan SgiliauAdeiladu. Fodd bynnag, bwriadwn ddiwygio’r sefyllfa bresennol drwy ddatblygu Gwefan dwyieithog fydd yn ymdrin ag agweddau o fusnes SgiliauAdeiladu a phrosiectau sydd yn benodol i Gymru ac hefyd gwybodaeth cyffredinol ynglyn a materion megis grantiau, newyddion ayb. Yr amserlen ar gyfer datblygu y wefan hon fydd Awst 2008 (hyfforddi staff a datblygu safle craidd hyd at Rhagfyr 2008 pan fydd tudalenau penodol ychwanegol ar gyfer Cymru yn cael eu cynnwys, bydd hyn yn parhau i dyfu a chael ei hadolygu yn barhaus ac fydd yn esblygol yn ei natur.

6.2.2. Bydd y wefan sy'n cael ei datblygu yn dynodi dewis iaith yn hollol eglur. Mae SgiliauAdeiladu yn cydnabod mai'r ffurf orau o lywio ieithyddol yw dewis iaith ar bob tudalen lle y ceir fersiwn iaith arall hefyd ar ei chyfer.

6.2.3. Bydd tudalennau Cymraeg a Saesneg y wefan yn cael eu gwerthuso a'u diweddaru ar yr un pryd.

6.2.4. Wrth weithredu'r Cynllun, bydd yr holl ddogfennau, adroddiadau, ffurflenni sydd ar y wefan yn ddwyieithog gyda deunyddiau yn y ddwy iaith cyn hawsed â'i gilydd i'w dadlwytho.

6.2.5. Bydd yr holl ddeunydd a darpariaeth Gymraeg a Saesneg yn gyson o safbwynt eu diweddariad, cywirdeb, amlygrwydd, eglurder ac ansawdd.

6.2.6. Caiff staff, ymgynghorwyr, dylunwyr a chyhoeddwyr gyfarwyddyd ysgrifenedig (e.e. *Canllawiau Dylunio Dwyieithog*) i'w cynorthwyo i lunio a delio gyda deunydd dwyieithog.

6.3. <u>Arwyddion</u>

6.3.1. Bydd SgiliauAdeiladu yn sicrhau fod arwyddion gwybodaeth newydd o fewn ffiniau eiddo SgiliauAdeiladu yng Nghymru yn ddwyieithog. Bydd hyn yn cynnwys arwyddion dwyieithog yn y derbynfeydd a fydd yn hysbysu'r cyhoedd o'u hawl i ddefnyddio'r Gymraeg neu Saesneg.

6.3.2. Bydd SgiliauAdeiladu yn sicrhau fod y ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal o safbwynt maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

6.3.3. Er mai arwyddion dwyieithog yw'r opsiwn cyntaf, bydd arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân, o'u darparu, yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

6.3.4. Bydd pob arwydd dwyieithog a fersiwn Gymraeg yn cael eu prawf-ddarllen gan gyfieithydd cymeradwy er mwyn gwarantu cysondeb yn safon y Gymraeg.

6.3.5. Mae'r mesurau yma yn briodol i arwyddion parhaol a thros dro.

6.4. <u>Cyhoeddi a phrintio deunydd i'w ddosbarthu i'r cyhoedd yng Nghymru</u>

6.4.1. Bydd yr holl ddeunydd a anelir at y cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog ac yn ffurfio un ddogfen. Bydd y fersiynau'n cael eu printio gefn wrth gefn er mwyn hwyluso dosbarthiad, croesgyfeirio a dewis iaith.

6.4.2. Er mai cyhoeddiadau dwyieithog unigol yw'r opsiwn cyntaf, pan gaiff fersiynau Cymraeg a Saesneg eu cyhoeddi ar wahân (e.e. oherwydd eu maint sylweddol), bydd SgiliauAdeiladu eto'n sicrhau y byddant yn cael eu dosbarthu yn unol â'r canllawiau isod.

6.4.3. Os codir tâl am ddogfen ddwyieithog, ni fydd ei phris yn uwch na fersiwn uniaith.

6.4.4. Er mai cyhoeddiadau dwyieithog, unigol, yw'r opsiwn gorau, pan fo fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cyhoeddi ar wahân, cânt eu dosbarthu gyda'i gilydd.

6.4.5. Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cynnwys neges yn dynodi fod y cyhoeddiad hefyd i'w ganfod yn yr iaith arall.

6.4.6. Ni fydd pris fersiwn Gymraeg unrhyw ddogfen yn uwch na phris y fersiwn Saesneg.

6.4.7. Caiff staff, ymgynghorwyr, dylunwyr a chyhoeddwyr gyfarwyddyd ysgrifenedig (e.e. *Canllawiau Dylunio Dwyieithog*) i'w cynorthwyo i lunio a delio gyda deunydd dwyieithog.

6.4.8. Bydd pob cyhoeddiad dwyieithog a fersiynau Cymraeg yn cael eu prawf-ddarllen gan gyfieithydd cymeradwy er mwyn gwarantu cysondeb yn safon y Gymraeg.

6.5. Ffurflenni a deunydd esboniadol cysylltiedig

6.5.1. Bydd SgiliauAdeiladu yn sicrhau fod ffurflenni a deunydd esboniadol cysylltiedig sydd i'w defnyddio gan y cyhoedd yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog yn unol â'r canllawiau a amlinellir yn **Cyhoeddi a Phrintio Deunydd i'w ddosbarthu i'r cyhoedd yng Nghymru–** gweler adran 6.4 uchod.

6.5.2. Er mai cyhoeddiadau dwyieithog, unigol, yw'r opsiwn gorau, pan fo fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cyhoeddi ar wahân (e.e. oherwydd eu maint sylweddol), bydd SgiliauAdeiladu eto yn sicrhau fod pob cyhoeddiad yn cydymffurfio gydag ymrwymiadau 6.4.3 i 6.4.8 yn yr adran **Cyhoeddi a Phrintio Deunydd i'w ddosbarthu i'r cyhoedd yng Nghymru**

6.6. Datganiadau i'r wasg

Bydd ein Hasiantaeth Cysylltiadau Cyhoeddus (Harrison Cowley) yn gweithio'n agos gyda'r swyddfa Ardal ar gysylltiadau cyhoeddus yng Nghymru. Yn unol â'r ymrwymiadau yn Adran 9 y cynllun hwn, bydd Harrison Cowley yn ymwybodol o'r angen i gydymffurfio â gofynion y Cynllun.

6.6.1. Bydd pob hysbysiad a datganiad gan SgiliauAdeiladu i'r wasg a'r cyfryngau yng Nghymru yn gwbl ddwyieithog.

6.6.2. Anfonir datganiadau i'r wasg a hysbysiadau yn Saesneg i gyfryngau yng Nghymru y gwyddwn eu bod yn uniaith Saesneg ac yn Gymraeg i gyfryngau y gwyddwn eu bod yn uniaith Gymraeg.

6.6.3. Caiff y trefniadau i hwyluso'r ddarpariaeth uchod eu trefnu gan y Rheolwr Addysg a Gyrfaoedd yn seiliedig yn swyddfa SgiliauAdeiladu ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

6.7. Gweithgareddau hysbysebu a chyhoeddusrwydd

6.7.1. Bydd SgiliauAdeiladu yn cynnal gweithgareddau hysbysebu a chyhoeddusrwydd yng Nghymru yn ddwyieithog, a hynny mewn modd sy'n trin y ddwy iaith ar y sail eu bod yn gyfartal. Bydd SgiliauAdeiladu yn cydymffurfio â'r mesurau a amlinellir o fewn y Cynllun hwn (o dan adran 6.4) yng nghyd-destun cyhoeddiadau dwyieithog.

6.7.2. Bydd y canlynol yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog:

- Yr holl lenyddiaeth farchnata wedi'i hanelu at y cyhoedd
- Deunydd drwy'r post yn cynnwys arolygon a deunydd hyrwyddo
- Hysbysebion yn y wasg / cyfryngau
- Arolygon cyhoeddus

- Ymgyrchoedd marchnata uniongyrchol
- Stondinau gwybodaeth ac arddangosfeydd
- Hysbysebion poster

6.7.3. Bydd SgiliauAdeiladu yn sicrhau presenoldeb staff Cymraeg i groesawu a hwyluso defnydd o'r iaith yn ei holl weithgareddau cyhoeddus. Bydd y swyddogion yma'n gwisgo bathodynnau "Iaith Gwaith" er mwyn dynodi eu bod yn rhugl neu wrthi'n dysgu Cymraeg.

6.8. Hysbysiadau Cyhoeddus a Hysbysebion Recriwtio Staff

6.8.1. Bydd SgiliauAdeiladu yn sicrhau fod yr holl hysbysiadau cyhoeddus yng Nghymru yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg a'r Saesneg yn gydradd o safbwynt fformat, maint, eglurder ac amlygrwydd; boed hynny yn y wasg, ar hysbysfyrddau neu fel arall.

6.8.2. Bydd y canlynol yn eithriadau i'r uchod

- hysbysiadau cyhoeddus mewn cyhoeddiadau Cymraeg. Bydd y rhain yn ymddangos yn Gymraeg yn unig.
- hysbysiadau mewn cyhoeddiadau a gylchredir drwy'r D.U. neu'n ehangach. Bydd y rhain yn ymddangos yn Saesneg yn unig.

6.8.3. Wrth baratoi a chyhoeddi hysbysebion i recriwtio staff yng Nghymru, bydd SgiliauAdeiladu yn dilyn y drefn a ganlyn:

(a) Bydd hysbysebion am swyddi y mae medru'r Gymraeg yn *hanfodol* ar eu cyfer yn ymddangos:

- yn Gymraeg un unig mewn cyhoeddiadau Cymraeg
- yn Gymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau Saesneg eu hiaith a gylchredir yn bennaf yng Nghymru ond gyda brawddeg esboniadol Saesneg ar waelod yr hysbyseb

(b) Bydd hysbysebion am swyddi y mae medru'r Gymraeg yn *ddymunol* ar eu cyfer yn cael eu cyhoeddi:

- yn ddwyieithog mewn cyhoeddiadau Saesneg sy'n cylchredeg yng Nghymru yn bennaf
- yn Saesneg yn unig mewn cyhoeddiadau sy'n cylchredeg drwy'r D.U. neu y tu hwnt
- yn Gymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau Cymraeg

(c) Bydd hysbysebion am swyddi nad ydynt yn cyfeirio o gwbl at fedru'r Gymraeg fel rhan o Strategaeth Sgiliau Ieithyddol SgiliauAdeiladu yn cael eu cyhoeddi:

- yn ddwyieithog mewn cyhoeddiadau Saesneg sy'n cylchredeg yng Nghymru yn bennaf
- yn Gymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau Cymraeg.
- yn Saesneg yn unig mewn cyhoeddiadau sy'n cylchredeg y tu allan i Gymru yn bennaf.

7. GWEITHREDU AC AROLYGU'R CYNLLUN

7.1. Staffio

7.1.1. Er mwyn sicrhau dros gyfnod o amser fod SgiliauAdeiladu yn gallu darparu ei wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg i safon uchel, yn effeithlon ac effeithiol, bydd yn mabwysiadu Strategaeth Sgiliau Ieithyddol fel rhan o'i brosesau cynllunio adnoddau dynol. Bydd y Strategaeth hon yn galluogi SgiliauAdeiladu i gael trosolwg o'i adnoddau a'i anghenion ieithyddol, gan gydlynu hyfforddiant a recriwtio i hwyluso amcanion y Cynllun. Bydd y mesurau isod yn rhan o'r Strategaeth hon.

7.1.2. Er mwyn cyflawni'r ymrwymiad uchod, bydd SgiliauAdeiladu yn cynnal arolwg o'i wasanaethau, ei ddarpariaethau a'i staff er mwyn dynodi'n wrthrychol:

- pa weithleoedd neu sefyllfaoedd gwasanaethol sydd â chyswllt â'r cyhoedd yng Nghymru a natur y cyswllt hwnnw
- pa sgiliau dwyieithog a feddir gan y staff presennol ac i ba raddau y mae gan y staff ddiddordeb mewn gwella eu sgiliau

7.1.3. Ar ôl cynnal a dadansoddi'r arolwg uchod, bydd SgiliauAdeiladu yn dynodi'r swyddi hynny y mae medru'r Gymraeg ar eu cyfer yn *hanfodol,* yn *fanteisiol*, neu'n ddiangen. Caiff swydd-ddisgrifiadau wedyn eu llunio yn unol â'r canllawiau yn adran 6.8.

7.1.4. Bydd pob swydd newydd a phob un o'r swyddi presennol a ddaw'n wag yn cael eu hystyried yng ngoleuni gofynion Strategeth Sgiliau Ieithyddol y Cynllun hwn. Wrth wneud hynny, bydd SgiliauAdeiladu yn ymwybodol o'r angen i fanteisio ar bob cyfle i unioni unrhyw ddiffygion yn y ddarpariaeth/gwasanaeth Cymraeg.

7.1.5. Wrth fonitro gweithrediad y Cynllun, bydd SgiliauAdeiladu yn cymryd camau cadarnhaol i adfer y sefyllfa os bydd nifer y siaradwyr Cymraeg mewn swyddi sy'n gysylltiedig â'r Cynllun yn dechrau lleihau.

7.2. Dysgu Cymraeg

7.2.1. Mae'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg mewn sefyllfaoedd gwasanaethol yn hanfodol i lwyddiant y Cynllun hwn. Mae SgiliauAdeiladu yn cydnabod fod y gallu i ddeall a siarad Cymraeg yn y gweithle o ddydd i ddydd yn sgil werthfawr sydd yn medru cynorthwyo staff i ddarparu gwasanaeth cyflawn i'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg.

7.2.2. Bydd SgiliauAdeiladu yn cefnogi gweithrediad y Cynllun drwy annog a chefnogi'r aelodau staff hynny sydd am ddysgu Cymraeg neu am loywi'u Cymraeg.

7.2.3. Bydd SgiliauAdeiladu yn trefnu rhaglenni dysgu a hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar weithleoedd a swyddi sy'n bwysig i wireddiad y Cynllun. Bydd cyrsiau o'r fath ar gael i'r sawl sy'n dechrau dysgu Cymraeg ac i'r rhai hynny sydd am wella'u gallu i siarad ac ysgrifennu'r iaith. SgiliauAdeiladu fydd yn gyfrifol am dalu costau'r fath gyrsiau.

7.2.3.1. Bydd SgiliauAdeiladu yn penodi uwch swyddog a fydd yn gyfrifol am y rhaglenni dysgu a hyfforddiant.

7.2.4. Er yn cynnig gwasanaeth dwyieithog ar hyn o bryd, bydd SgiliauAdeiladu yn cynnal ac yn datblygu'r gwasanaeth hwn drwy ddynodi ac ateb anghenion dysgu a datblygu aelodau staff mewn ysgrifennu a siarad Cymraeg, gan ddynodi anghenion daearyddol a sector a sicrhau y caiff aelodau staff addas eu recriwtio a/neu eu datblygu i ateb yr angen hwn fel y cwyd cyfleoedd drwy staff yn gadael ac yn cael dyrchafiad, i ystyried a gweithredu cynllunio olyniaeth lle a phryd mae'n briodol.

7.3. <u>Recriwtio</u>

7.3.1. Wrth recriwtio staff, bydd SgiliauAdeiladu yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r ffaith bod croeso i siaradwyr Cymraeg ymuno â'r gweithlu drwy nodi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol i wneud y rôl a thrwy eiriad yn annog ceisiadau gan staff dwyieithog.

7.3.2. Bydd SgiliauAdeiladu wedyn yn ceisio hyfforddi ac apwyntio staff priodol gan y bydd hyn yn hwyluso gweithrediad y Cynllun. Bydd pob hysbyseb recriwtio ar gyfer pob swydd sy'n gofyn am sgiliau Cymraeg ynghyd â'r swydd–ddisgrifiad neu'r manylion perthnasol, yn cael eu geirio mewn modd sy'n nodi'n eglur ofynion ieithyddol y swydd yn unol â mesurau 7.1.3. a 7.1.4. uchod.

7.3.3. Ar adegau, lle y bydd anhawster recriwtio staff sydd â'r sgiliau angenrheidiol, efallai y bydd angen penodi rhywun nad yw'n siarad Cymraeg i swydd lle ystyrir bod y gallu i siarad Cymraeg yn *hanfodol*. Fodd bynnag, caiff swyddi o'r fath eu hysbysebu a'u cynnig ar y ddealltwriaeth y bydd angen i'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg ddysgu'r iaith fel amod o gyflogaeth a chyrraedd lefel foddhaol o ruglder o fewn cyfnod penodol rhesymol. Dylai'r lefel rhuglder a bennir fod yr hyn sydd ei angen i gyflawni dyletswyddau'r swydd, a dylid gwneud hynny'n glir i ymgeiswyr yn y manylion swydd, ochr yn ochr â chefnogaeth y sefydliad iddynt ddysgu'r iaith.

7.3.4. Wrth fwrw ymlaen â threfniadau o'r fath, bydd SgiliauAdeiladu yn rhoi'r amser a'r cymorth angenrheidiol i alluogi'r aelod o staff i fodloni'r amod gan sicrhau nad ydyw dan anfantais mewn modd arall oherwydd cadw at yr amod. Mae angen cynllunio'r rhaglen ddysgu a'i harolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y cyflogwyr a'r aelod staff yn cadw at eu gair. Bydd hyn yn rhan o sicrhau bod gan SgiliauAdeiladu nifer ddigonol o siaradwyr Cymraeg yn y gweithlu i gyflwyno'r gwasanaethau a amlinellir yn y Cynllun hwn..

7.3.5. Drwy weithredu fel hyn, bydd SgiliauAdeiladu yn trin gallu ieithyddol yn yr un modd yn union ag unrhyw sgil broffesiynol arall a all fod yn ofynnol ar gyfer cyflawni swydd ac a fydd yn destun adolygiad ymhen cyfnod penodedig. Gan hynny, rhaid parchu a gweithredu yn ôl yr amod cyflogaeth hwn yr un mor bendant â phob amod cyflogaeth arall a bydd SgiliauAdeiladu yn adolygu cyrhaeddiad y sawl a benodir o fewn cyfnod penodedig wedi'r penodiad.

7.3.6. Bydd SgiliauAdeiladu yn sicrhau cyfran briodol o staff Cymraeg ymhlith y gweithlu er mwyn caniatáu i ddefnyddwyr gwasanaethau ymarfer dewis iaith wrth gyfathrebu ar bob lefel.

7.4. Hyfforddiant Galwedigaethol

7.4.1. Bydd Sgiliau Adeiladu yn annog staff i ddatblygu'u sgiliau i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn iddynt ymgynefino â thrin a thrafod eu priod feysydd proffesiynol gyda'r cyhoedd yn Gymraeg.

7.4.2. Er mwyn gwireddu'r ymrwymiad uchod, bydd SgiliauAdeiladu yn asesu'r angen am hyfforddiant galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg cyn darparu hyfforddiant galwedigaethol er mwyn hwyluso gweithrediad y Cynllun.

7.4.3 Oherwydd natur gwaith SgiliauAdeiladu, bydd SgiliauAdeiladu yn gweithredu'r mesurau yma drwy werthuso anghenion sgiliau cyfredol pob swydd yn seiliedig ar ddaearyddiaeth a natur y gwaith. Caiff gallu timau o fewn SgiliauAdeiladu i gyflenwi gwasanaeth dwyieithog yn cynnwys cyngor ac arweiniad a recriwtio prentisiaid ei asesu ei drafod fel sy'n addas i'r anghenion sgiliau a fydd yn cynnwys y gallu i gynnal sgwrs sylfaenol yn Gymraeg, gan wella'r gallu i gyflenwi ymatebion ysgrifenedig yn Gymraeg yn uniongyrchol gan staff SgiliauAdeiladu.

8. TREFNIADAU GWEINYDDOL

8.1. **Awdurdod:** Mae SgiliauAdeiladu yn cadarnhau fod y Cynllun hwn a'i holl fesurau wedi'u cymeradwyo ar y lefel uchaf ac yn derbyn cefnogaeth lawn yr awdurdodau rhanbarthol a chanolog wrth iddynt gael eu gweithredu.

8.2. **Cyfrifoldeb:** Bydd SgiliauAdeiladu yn enwebu, Cyfarwyddwr Cymru, i fod yn bennaf gyfrifol am weithredu a monitro'r Cynllun.

8.3. Y Rheolwr Recriwtio a Gyrfaoedd, fydd yn gyfrifol am weithredu'r Cynllun o ddydd i ddydd ac am integreiddio'r agweddau o wasanaeth SgiliauAdeiladu sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg o fewn ei brosesau gweinyddol arferol.

8.3.1. Bydd rheolwyr hefyd yn gyfrifol am weithredu'r agweddau hynny o'r Cynllun sy'n berthnasol i'w hadrannau hwy eu hunain.

8.3.2. Uwch Dim Rheoli SgiliauAdeiladu Cymru fydd yn gyfrifol am weithredu'r Cynllun.

8.4. **Cyfarwyddyd ac Arweiniad:** Bydd SgiliauAdeiladu yn sicrhau fod ei holl staff yng Nghymru a'r rhai hynny sydd yn delio gyda'r cyhoedd yng Nghymru yn derbyn cyfarwyddyd ar y Cynllun a'r hyn a ddisgwylir oddi wrthynt (Gweler adran 3.1.1)

8.5 Bydd yr holl gyfieithwyr a ddefnyddir gan SgiliauAdeiladu yn gymwys i ddarparu gwasanaeth o'r safon uchaf.

8.5.1 Bydd SgiliauAdeiladu yn sicrhau fod unrhyw raglenni cyfrifiadur newydd yn medru darparu allbwn dwyieithog er mwyn hwyluso gweithrediad y Cynllun.

9. GWASANAETHAU AR RAN Y CORFF GAN BARTÏON ERAILL

9.1. Bydd SgiliauAdeiladu yn sicrhau y bydd unrhyw gytundeb neu drefniant sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru a wneir gyda thrydydd parti yn gyson â thelerau'r Cynllun. Bydd hyn yn cynnwys gwasanaethau newydd neu wasanaethau sydd eisoes wedi'u contractio allan.

9.2. Bydd SgiliauAdeiladu hefyd yn gwarantu drwy drefniadau contractio y gall, y bydd a bod yr asiant, contractwr neu isgontractwr yn gweithredu unrhyw elfennau perthnasol o Gynllun y sefydliad wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd ar ei ran neu o dan ei oruchwyliaeth.

9.3. Bydd SgiliauAdeiladu yn cydweithio gyda chyflenwyr i annog gweithrediad eu Cynlluniau Iaith hwy eu hunain.

9.4. Bydd rhaid i'r trydydd parti gadarnhau ei fod wedi cydymffurfio gyda'r mesurau perthnasol o Gynllun SgiliauAdeiladu drwy lythyr.

9.5. Bydd SgiliauAdeiladu yn darparu cyfarwyddyd ysgrifenedig i'r sawl sydd yn delio gyda chontractwyr ac yn dyfeisio prosesau er mwyn sicrhau fod staff yn glynu atynt.

10. PARTNERIAETHAU

Mae SgiliauAdeiladu yn gweithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Adeiladu Ardderchogrwydd yng Nghymru i gyflenwi'r rhaglen Adeiladu Cymru a ariennir gan y Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewropeaidd.

10.1. Mae SgiliauAdeiladu yn gweithio mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus, sefydliadau o'r sector gwirfoddol ac asiantaethau eraill. Mae SgiliauAdeiladu yn gweithredu ar sawl lefel wrth gydweithio ag eraill:

i) Pan fo SgiliauAdeiladu yn arwain partneriaeth, yn strategol ac yn ariannol, bydd yn sicrhau fod y ddarpariaeth gyhoeddus yn unol â'r Cynllun Iaith. SgiliauAdeiladu yw'r partner sy'n arwain ar brosiect Adeiladu Cymru ac mae'n sicrhau fod ei holl lenyddiaeth a'i gwefan ar gael yn Gymraeg.

ii) Pan fo SgiliauAdeiladu yn ymuno â phartneriaeth y mae corff arall yn ei harwain, bydd mewnbwn SgiliauAdeiladu i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith a bydd SgiliauAdeiladu yn annog y partïon eraill i gydymffurfio. Caiff dogfen fframwaith strategol amgylchedd adeiledig AssetSkills, SummittSkills ac E&U Skills (fframwaith strategol amgylcheddol) eu cyfieithu a byddant ar gael yn Gymraeg.

iii) Pan fo SgiliauAdeiladu yn bartner mewn consortiwm, bydd yn annog y consortiwm i fabwysiadu polisi dwyieithog. Wrth weithredu'n gyhoeddus yn enw'r consortiwm, bydd y sefydliad yn gweithredu yn unol â'i Gynllun Iaith Gymraeg. Enghraifft o hyn yw SgiliauAdeiadu yn annog CIC i gynhyrchu Cynllun Iaith Gymraeg.

iv) Pan fo SgiliauAdeiladu yn ymuno â neu'n ffurfio partneriaeth, bydd yn gofyn i'r darpar bartneriaid am eu Cynlluniau Iaith, polisïau iaith neu'r modd y maent yn bwriadu gweithredu yn ddwyieithog. Fel rhan o bob partneriaeth, bydd SgiliauAdeiladu yn cynnig cyngor a chymorth i'r partïon eraill sy'n rhan o'r bartneriaeth. E.e pan mae SgiliauAdeiladu yn cytuno CSS (Cytundeb Sgiliau Sector) gyda unrhyw sefydliad.

11. MONITRO GWEITHREDIAD Y CYNLLUN

11.1. Bydd y Rheolwr Addysg a Gyrfaoedd a'r Grŵp Llywio sydd wedi ei enwebu gan SgiliauAdeiladu yn bennaf gyfrifol am fonitro'r Cynllun ac am ei adolygu'n barhaol fel yr amlinellir yn adran 8.2.

11.2. Bydd SgiliauAdeiladu yn strwythuro'r broses fonitro ac yn paratoi adroddiad cynnydd mewnol ar weithrediad y Cynllun a gaiff ei gyflwyno i'r tîm rheoli. Bydd yr adroddiad i'w gyflwyno pob tri mis.

11.3. Bydd Bwrdd SgiliauAdeiladu yn derbyn adroddiad cydymffurfiaeth blynyddol fydd yn ei alluogi i ateb y ddau gwestiwn sylfaenol canlynol:

- A yw SgiliauAdeiladu yn cydymffurfio â'r Cynllun?
- Pa mor dda y mae'n gwneud hynny?

Wrth wneud hyn, bydd yr adroddiad yn delio â,

- gwasanaeth Cymraeg gweinyddol SgiliauAdeiladu
- asesu themâu penodol wrth weithredu'r Cynllun, gan gynnwys cyfraniad SgiliauAdeiladu i ddatblygiad darpariaethau ddwyieithog/Cymraeg
- digonolrwydd hyfedredd ieithyddol y gweithlu i weithredu gofynion y Cynllun Iaith.

11.4. Bydd SgiliauAdeiladu yn gofyn o dro i dro am farn siaradwyr Cymraeg am gwmpas ac ansawdd y gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Seasneg a ddarperir ganddo.

11.5. Bydd monitro'r Cynllun yn weithgarwch strwythuredig a pharhaol, ac os bydd yr adroddiad yn canfod gwendidau, bydd SgiliauAdeiladu yn paratoi cynllun gweithredu fydd yn ateb unrhyw wendid a ganfuwyd.

11.6. Bydd copi o'r adroddiad hwn yn cael ei anfon at Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

11.7. Yn ystod y drydedd flwyddyn o weithredu'r Cynllun hwn, bydd SgiliauAdeiladu yn paratoi adroddiad gwerthuso cyflawn a fydd yn gwerthuso perfformiad wrth weithredu'r Cynllun dros y tair blynedd gyntaf. Er mwyn adolygu a diweddaru ei Gynllun Iaith a thrwy hynny dderbyn cymeradwyaeth ar gyfer yr ail gyfnod o weithredu, bydd yr adroddiad yn

- darparu gorolwg a dadansoddiad thematig o gydymffurfiaeth a pherfformiad wrth weithredu'r Cynllun dros y tair blynedd, o ran cyflenwi gwasanaeth a rheolaeth cynllun.
- amlinellu blaenoriaethau SgiliauAdeiladuar gyfer y tair blynedd ddilynol ynghyd ag amserlen ddiwygiedig ar gyfer gweithredu'r mesurau yn y Cynllun.

- fel rhan o'r gwerthusiad hwn, bydd SgiliauAdeiladu yn cynnal arolwg o fodlonrwydd y cyhoedd er mwyn cael eu barn am gwmpas ac ansawdd ei wasanaethau dwyieithog.

11.8. Bydd yr adroddiad blynyddol a ddarperir gan SgiliauAdeiladu i Fwrdd yr Iaith Gymraeg mewn fformat a fydd wedi'i gytuno gan y Bwrdd, ac yn disgrifio datblygiad gweithrediad y Cynllun yn erbyn yr amserlenni cymeradwy. Bydd hefyd yn dadansoddi nifer a natur unrhyw gwynion ac awgrymiadau am welliannau sydd wedi eu derbyn oddi wrth y cyhoedd.

12. CYHOEDDI GWYBODAETH

12.1. Bydd SgiliauAdeiladu yn cyhoeddi'n rheolaidd wybodaeth sy'n cymharu perfformiad yn erbyn y safonau a thargedau a nodir yn y Cynllun.

12.2. Bydd SgiliauAdeiladu yn gwireddu'r ymrwymiad uchod drwy:

- *gyhoeddi adroddiad cyfnodol fel yr amlinellir yn 11.2. a 11.3*
- *gosod yr wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol*
- *gosod crynhoad o'r wybodaeth mewn dogfennau eraill lle y caiff perfformiad ei arolygu; posteri mewn mannau cyhoeddus ac o fewn swyddfeydd, cylchlythyron a'i wefan.*

12.3. Lle bo SgiliauAdeiladu wedi methu cyrraedd at dargedau, caiff esboniad am hyn ei gynnig a disgrifiad o sut a phryd y bydd yn cyrraedd targedau diwygiedig.

13. CYHOEDDUSRWYDD (adran 12(2)(b) o'r Ddeddf

13.1. Mae SgiliauAdeiladu yn icrhau cyhoeddusrwydd eang i'r Cynllun Iaith hwn ymhlith y cyhoedd er mwyn sicrhau, ar y naill law, fod y cyhoedd a phawb a ddaw i gysylltiad ag ef yn ymwybodol o'i wasanaethau yn Gymraeg a bod staff cyflogedig, asiantiaid a chontractwyr SgiliauAdeiladu ar y llaw arall yn ymwybodol o'r angen i weithredu yn unol â'r Cynllun hwn

13.2. Bydd SgiliauAdeiladu yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r Cynllun drwy baratoi copïau ar gyfer cyrff/mudiadau perthnasol, cyflogwyr neu aelodau o'r cyhoedd. Bydd SgiliauAdeiladu hefyd yn paratoi tudalen we a datganiadau i'r wasg yn esbonio prif elfennau'r Cynllun ac yn manylu ar natur, lleoliad ac argaeledd y gwasanaethau dwyieithog. Bydd y fath ddeunyddiau ar gael i'r holl gyrff/mudiadau perthnasol, cyflogwyr ac aelodau o'r cyhoedd.

13.3 Dylid cyfeirio unrhyw ymholiad ynghylch y Cynllun at: Rheolwr Recriwtio a Gyrfaoedd, Rheolwr Addysg a Gyrfaoedd, Unedau 4 & 5 Canolfan Fusnes Pen-y-bont ar Ogwr, Stryd Dewi, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SH.

14. CWYNION/AWGRYMIADAU A MANYLION CYSWLLT

14.1. Bydd SgiliauAdeiladu yn mabwysiadu trefn gwyno er mwyn delio â chwynion yn erbyn y Cynllun, a hynny fel rhan o drefn gwyno gyffredinol SgiliauAdeiladu drwy gysylltu â Chyfarwyddwr Cymru SgiliauAdeiladu ar 01656 655 226.

14.2. Bydd SgiliauAdeiladu yn croesawu ac yn cadw cofnod o unrhyw gwynion neu awgrymiadau ar gyfer gwella'r gwasanaeth dwyieithog i'r cyhoedd. Ysgrifennwch atom yn SgiliauAdeiladu, Unedau 4 & 5 Canolfan Fusnes Pen-y-bont ar Ogwr, Stryd Dewi, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SH os gwelwch yn dda.

15. TARGEDAU

15.1. Byddwn yn gosod targedau penodol ar gyfer gweithredu'r mesurau a amlinellir yn y Cynllun. Bydd y targedau yma'n dynodi'r camau sydd eisoes wedi eu cymryd, y rhai hynny y gellir eu gweithredu ar unwaith, y rhai hynny a bennir yn dargedau tymor byr, targedau canolig a thargedau hirdymor. Bydd y fath dargedau yn eglur, diamwys a pherthnasol.

16. AMSERLEN (adran 12(2)(a) o'r Ddeddf)

16.1. Os nad yn wahanol i'r hyn a nodir, bydd yr ymrwymiadau a amlinellir yn y Cynllun hwn yn weithredol o'r dyddiad y caiff y Cynllun ei gymeradwyo. Bydd y broses fonitro wedyn yn dilyn y drefn a amlinellir yn adran 11.

Paragraff	Ymrwymiad	Amserlen	Pwy sy'n gyfrifol?
3.1.1	Trefnu cyfarfodydd gyda holl Gyfarwyddwyr/ Rheolwyr Sgiliau Adeiladu er mwyn esbonio sut y bydd y Cynllun yn effeithio ar eu gwaith.	**Tymor byr** **Medi 2008**	**Cyfarwyddwr Cymru**
	Diweddaru'r cynllun gyda phersonél perthnasol.	**Hydref 2008**	**Rheolwr Recriwtio a Gyrfaoedd**
	Cynnwys cyflwyniad i'r Cynllun Iaith fel rhan o hyfforddiant anwytho pob aelod newydd o staff a gaiff eu hapwyntio i SgiliauAdeiladu a fydd yn seiliedig yng Nghymru neu a fydd yn ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gyda'r cyhoedd yng Nghymru.	**Tymor Byr** **Tachwedd 2008**	**Rheolwr Recriwtio a Gyrfaoedd** **Rheolwr AD**
	Llunio cylchlythyr copi caled ac electronig yn rhoi gwybodaeth am y cynllun a'i ddosbarthu i'r holl staff oddi mewn a thu allan i Gymru.	**Tymor Byr** **Ioanwr 2009**	**Rheolwr Recriwtio a Gyrfaoedd** **Adran Gwasanaethau Gwybodaeth**
	Cyhoeddi'r cynllun ar fewnrwyd a gwefan SgiliauAdeiladu.	**Tymor Byr** **Tachwedd 2008**	
4.3	Ymchwilio ac ymateb i anghenion sgiliau iaith Gymraeg y sector Adeiladu.	**Tymor Canol** **Goffennaf 2009**	**Ymgynghorydd Strategol**
	Cynghori ac arwain darparwyr dysgu i adnabod ac ymateb i anghenion hyfforddiant Cymru ddwyieithog.	**Tymor Canol** **Mawrth 2009**	**Rheolwr Recriwtio**
4.4	Cynnal arolygon dwyieithog a fydd erbyn 2009 yn cynnwys cwestiynau penodol ar yr angen a'r galw am sgiliau cyfrwng Cymraeg.	**Tymor Canol** **Gorffennaf 2009**	**Ymgynghorydd Strategol**
	Dosbarthu canfyddiadau ymchwil gan amlygu'r sgil-effeithiau ar gyfer addysg ac ymarferion hyfforddi.	**Tymor Canol** **Hydref 2009**	**Rheolwr Recriwtio a Gyrfaoedd** **Rheolwr Recriwtio**
	Cyhoeddi'r canfyddiadau ymchwil yn ddwyieithog.	**Fel uchod**	
4.5	Datblygu gwasanaethau gyrfaoedd ac arweiniad dwyieithog ar gyfer unigolion proffesiynol sy'n gweithio oddi mewn i'r diwydiant neu'r sawl sydd am weithio yn y diwydiant erbyn 2009	**Tymor Canol** **March 2009**	**Rheolwr Recriwtio a Gyrfaoedd**
	Cyfarwyddyd am argaeledd cyfleoedd hyfforddi Cymraeg/dwyieithog bob amser ar gael i gyflogwyr a gweithwyr erbyn 2009	**Tymor Canol** **Gorffennaf 2009**	**Rheolwr Tim Ymgynghori**
4.6	Cynllun datblygu gweithlu SgiliauAdeiladu i edrych ar anghenion iaith Gymraeg y sector a phennu targedau ar gyfer datblygu darpariaeth yn seiliedig ar resymegy canlyniadau.	**Tymor Canol** **Gorffennaf 2009**	**Ymgynghorydd Strategol**

Paragraff	Ymrwymiad	Amserlen	Pwy sy'n gyfrifol?
	Bydd SgiliauAdeiladu'n cydweithio'n agos gyda Adrannau perthnasol o Lywodraeth Cynulliad Cymru threy phartneriaethau ffurfiol wedi eu monitro gan gyfarfodydd chwarterol fel rhan o'r strategaeth cymhwystarau cenedlaethol.	**Tymor byr (cyfredol).** **Pan dderbynnir y Cynllun. I gychwyn Hydref 2008.**	**Rheolwr Recriwtio a Gyrfaoedd**
	Rhannu blaenoriaethau sgiliau dwyieithog i gyrff perthnasol gan cynnwys Llywodraeth Cynulliad Cymru.	**Tymor Canol** **Mawrth 2009**	**Ymgynghorydd Strategol**
4.7	Wrth adnabod, blaenoriaethu a hyrwyddo cyfleoedd hyfforddiant ac asesu dwyieithog, bydd SgiliauAdeiladu yn annog a chefnogi rhwydweithiau cydweithredol ar lefelau cenedlaethol a rhanbarthol thrwy grwp llywio Strategaeth Cymhwysterau Cenedlaethol Cymru	**Tymor byr** **Cyfarfod cyntaf Hydref 2008 ac wedyn yn barhaus yn chwarterol.**	**Rheolwr Recriwtio a Gyrfaoedd**
5.1.6	Bydd SgiliauAdeiladu Cymru yn paratoi bas data o'r rhai sy'n dymuno derbyn gohebiaeth Gymraeg	**Tymor byr** **Medi 2008**	**Rheolwr Recriwtio a Gyrfaoedd**
5.2.0	Bydd SgiliauAdeiladu yn gosod Cysill a Cysgair i gynorthwyo staff gyda gohebiaeth ysgrifenedig.	**Tymor byr** **Pan dderbynnir y Cynllun**	**Cyfarwyddwr Cymru** **Adran Gwasanaethau Gwybodaeth**
5.4.4	Wrth roi cyhoeddusrwydd i gyfarfodydd, bydd yr holl lenyddiaeth yn cynnwys troednodyn yn dweud fod SgiliauAdeiladu yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg a Saesneg.	**Tymor byr** **Pan dderbynnir y Cynllun**	**Cyd lynwyr swyddfa.**
6.2	Datblygu gwefan Bydd SgilliauAdeiladu yn datblygu gwefan llwyr ddwyieithog ar gyfer Cymru erbyn Rhagfyr 2008	**Tymor canol** **Rhagfyr 2008**	**Rheolwr Recriwtio a Gyrfaoedd** **Rheolwr Marchnata**
6.6.1	Bydd pob hysbysiad a datganiad gan SgiliauAdeiladu i'r wasg a'r cyfryngau yng Nghymru yn gwbl ddwyieithog.	**Tymor byr** **O dyddiad derbyn y cynllun**	**Cyfarwyddwr Cymru**
6.6.2	Anfonir datganiadau i'r wasg a hysbysiadau yn Saesneg i gyfryngau yng Nghymru y gwyddys eu bod yn unaiith Saesneg ac yn Gymraeg i gyfryngau y gwyddys eu bod yn uniaith Gymraeg.	**Tymor byr** **O dyddiad derbyn y cynllun**	**Cyfarwyddwr Cymru**
6.8.3	Wrth baratoi a chyhoeddi hysbysebion i recriwtio staff yng Nghymru, bydd SgiliauAdeiladu yn dilyn y trefniadau a amlinellwyd yn 6.8.3 a, b ac c	**Tymor byr** **O dyddiad derbyn y cynllun**	**Rheolwr AD** **Rheolwr Recriwtio a Gyrfaoedd**
7.1.2	Er mwyn cyflawni'r ymrwymiad i staffio, bydd SgiliauAdeiladu yn cynnal arolwg o'i wasanaethau, darpariaethau a staff er mwyn dynodi'n wrthrychol y gweithleoedd a gwasanaethau hynny sydd â chyswllt gyda'r cyhoedd yng Nghymru a natur y cyswllt hwnnw.	**Tymor byr** **Medi 2008**	**Rheolwr Recriwtio a Gyrfaoedd**

Paragraff	Ymrwymiad	Amserlen	Pwy sy'n gyfrifol?
7.2	Bydd SgiliauAdeiladu yn gwerthuso a chydymffurfio gyda'r gofynion ar gyfer galluogi aelodau staff i ddysgu Cymraeg fel yr amlinellwyd yn 7.2.	**Tymor byr (cyfredol)**	**Pob Rheolwr yng Nghymru**
7.3	Bydd SgiliauAdeiladu yn gwerthuso a chydymffurfio gyda gofynion y polisi recriwtio fel yr amlinellwyd yn 7.3 yn cynnwys gwerthuso anghenion sgiliau.	**Tymor byr (cyfredol)**	**Pob Rheolwr yng Nghymru** **Rheolwr Recriwtio a Gyrfaoedd**
8.4	Bydd SgiliauAdeiladu yn sicrhau fod ei holl staff yng Nghymru a'r rhai sydd yn delio gyda'r cyhoedd yn derbyn cyfarwyddyd ar y cynllun a chyngor ar yr hyn a ddisgwylir oddi wrthynt.	**Tymor byr (cyfredol)**	**Pob Rheolwr yng Nghymru** **Rheolwr Recriwtio a Gyrfaoedd**
8.5.1	Bydd SgiliauAdeiladu yn sicrhau fod unrhyw raglenni cyfrifiadur newydd yn medru darparu allbwn dwyieithog.	**Cyfredol**	**Rheolwr Recriwtio a Gyrfaoedd**
9.5	Bydd SgiliauAdeiladu yn darparu cyfarwyddyd ysgrifenedig i'r sawl sydd yn delio gyda chontractwyr ac yn dyfeisio prosesau er mwyn sicrhau fod staff yn glynu atynt.	**Tymor byr** **Hydref 2008**	**Pob Rheolwr yng Nghymru** **Rheolwr Recriwtio a Gyrfaoedd**
11.2	Bydd SgiliauAdeiladu yn strwythuro'r broses fonitro ac yn paratoi adroddiad cynnydd mewnol ar weithrediad y cynllun i'w gyflwyno i'r tîm rheoli bob tri mis..	**Yn chwarterol o ddyddiad derbyn y Cynllun**	**Rheolwr Recriwtio a Gyrfaoedd** **Grŵp Monitro Iaith Gymraeg**
11.3	Bydd Bwrdd SgiliauAdeiladu yn derbyn adroddiad cydymffurfiaeth blynyddol a fydd yn ei alluogi i ateb y dilynol (A yw SgiliauAdeiladu yn cydymffurfio gyda'r cynllun?) (Pa mor dda y mae'n gwneud hynny)	**Blynyddol o ddyddiad derbyn y Cynllun**	**Rheolwr Recriwtio a Gyrfaoedd** **Grŵp Monitro Iaith Gymreg**
11.4	Bydd SgiliauAdeiladu yn gofyn o dro i dro am farn siaradwyr Cymraeg am gwmpas ac ansawdd y gwasanaethau a ddarperir ganddo.	**Blynyddol o ddyddiad derbyn y Cynllun**	**Rheolwr Recriwtio a Gyrfaoedd** **Grŵp Monitro Iaith Gymraeg**
12.2	Bydd SgiliauAdeiladu yn gwireddu ei ymrwymiad i'r cynllun drwy gyhoeddi adroddiad cyfnodol, gosod yr wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol gosod crynodeb o'r wybodaeth hon mewn dogfennau eraill fel y amlinellwyd yn 12.3 y cynllun.	**Blynyddol o ddyddiad derbyn y Cynllun**	**Rheolwr Recriwtio a Gyrfaoedd**